**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Adolygiadau Cwynion SCHTh Adroddiad Diweddaru cyfnod adrodd Hydref - Rhagfyr 2025 Chwarter 3

## Cynnwys


Data adolygiadau........................................................................ 2
Rheswm dros gynnal adolygiadau ................................... Error! Bookmark not defined.
Goruchwyliaeth ........................................................... Error! Bookmark not defined.

**Data adolygiadau**

| Dyddiad | Nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd | Nifer yr adolygiadau a Gynhaliwyd | Nifer yr adolygiadau Nas Cynhaliwyd | Nifer y dyddiau a gymerodd SCHTh i gwblhau adolygiad ar gyfartaledd | Nifer y dyddiau a gymerodd Sancus i gwblhau adolygiad ar gyfartaledd | Nifer yr adolygiadau a anfonwyd at Sancus |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ch3 25/26** | 13 | 3 | 11 | 18 | 5 | 3 |
| **Ch3 24/25** | 3 | 3 | 0 | 29 | 8 | 3 |

Mae SCHTh wedi gweld cynnydd yn nifer yr adolygiadau cwyn o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae nifer y cwynion a gynhaliwyd wedi aros yr un fath.

Ar gyfartaledd, mae nifer y dyddiau a gymerir i gwblhau adolygiad wedi lleihau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Ceir hyd i ddata Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ar eu gwefan fan hyn: Llyfrgell cyhoeddiadau | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

**Rheswm dros gynnal adolygiadau**

1. ***Cyfeirnod cwyn: PCC-06112025-7/CO/00433/25 - Mae'r unigolyn yn anhapus â'r penderfyniad i gau achos sy'n ymwneud â'u mab a digwyddiad gyda cherbyd. Mae'r cwyno yn credu bod methiant wedi digwydd wrth wneud ymholiadau angenrheidiol.***

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ar y sail nad oedd y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi'i fodloni a bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. O ganlyniad, gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Ymddiheuro'n ffurfiol wrth y dioddefydd am fethu â bodloni gofynion y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.
- Esboniad clir i fam y dioddefydd o ran sut ddaeth y triniwr cwyn i'r casgliad mai Gyrru Diofal oedd y drosedd yn hytrach na *"Gyrru Peryglus Posibl"* fel sydd wedi'i nodi o fewn y cofnod digwyddiad.

***Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol***

Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhellion a osodwyd a rhodd ymddiheuriad ar ran y Llu ac esboniad pellach.

2. ***<u>Cyfeirnod cwyn: </u>PCC-15122025-1 / CO/37/25 - Mae'r cwynwr yn anhapus â'r ffordd y siaradodd y swyddog â nhw ar ôl digwyddiad yn ymwneud â'u ci. Mae'r cwynwr hefyd yn pryderu bod eu partner blaenorol, sy'n swyddog heddlu, wedi bod yn caniatáu i'w mab eistedd mewn car heddlu a chwarae gyda chi heddlu.***

Cynhaliwyd yr adolygiad gan fod yr adolygwr wedi penderfynu nad oedd gwybodaeth ddigonol / bod gwybodaeth ar goll o fewn y llythyr canlyniad. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dogfennau a ddarparwyd fel rhan o'r adolygiad a thrwy gynnal ymholiadau gyda'r Adran Safonau Proffesiynol, roedd yr adolygiad yn gallu darparu'r wybodaeth ychwanegol fel rhan o'r canlyniad adolygiad. Gan hynny, penderfynwyd nad oedd unrhyw argymhellion pellach ac nid oedd angen ymateb gan yr Adran Safonau Proffesiynol.

3. ***<u>Cyfeirnod cwyn: </u>PCC-16122025-4 / CO/00253/25 - Mae'r cwynwr yn ansicr gyda agwedd dau Swyddog cymorth cymunedol yr heddlu sydd wedi mynychu eu cyfeiriad ynglŷn â gwrthdaro gyda'u cymdogion. Maent hefyd yn ansicr gyda sut mae'r heddlu wedi delio'n gyffredinol â'r gwrthdaro cymdogion dros sawl blwyddyn.***

Ar ôl adolygu'r darn ffilm camera corff a ddarparwyd fel rhan o'r adolygiad yn annibynnol, anghytunodd yr adolygwr â chanfyddiadau'r triniwr cwyn gan ystyried nad oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan SCCH yn dderbyniol. O ganlyniad, gwnaed yr argymhellion canlynol:

1. Bod SCCH yn cael cyfle i adolygu ei gysylltiad â'r achwynydd ac adlewyrchu arno.

2. Ymddiheuro'n ffurfiol i'r achwynydd am y gwasanaeth a ddarparwyd gan SCCH.

***<u>Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol</u>***

Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhellion a nodwyd a gofynnodd am i'r triniwr cwynion roi adborth yn bersonol drwy drafodaeth adlewyrchol i'r swyddog dan sylw. Yn ogystal, anfonwyd llythyr o ymddiheuriad i'r achwynydd.

**<u>Goruchwyliaeth</u>**

*Yn ystod y broses adolygu, bydd y cyrff plismona lleol yn nodi anghysondebau sydd ddim yn newid y ffaith bod y canlyniad yn rhesymol a chymesur, ond ble gellir gwella'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn. Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i gyrff plismona lleol fynd i'r afael â'r anghysondebau hynny, ac mewn achosion unigol, gyda'r awdurdodau priodol* IOPC-Focus-19-Reviews (18).pdf

Roedd 6 adolygiad yn ystod y cyfnod hwn lle'r ystyriwyd y gallai'r gwasanaeth fod wedi bod yn well wrth ymdrin â'r gŵyn.

Themâu a nodwyd:

- Amseroldeb o ran cwblhau cwynion.
- Diweddariadau statudol 28 diwrnod heb eu darparu.
- Nid oedd yr iaith a ddefnyddiwyd o fewn gohebiaeth i'r achwynydd ac o fewn y llythyr canlyniad wedi'i hysbysu gan drawma.
- Roedd y derminoleg a ddefnyddiwyd yn anghywir.
- Pennu'r triniwr cwynion – Mewn un achos, penderfynwyd mai'r triniwr cwynion oedd goruchwylydd y swyddog a oedd yn destun cwyn. Gan hynny, cwestiynwyd ei annibyniaeth.

Mae SCHTh hefyd yn cofnodi unrhyw arfer gorau a nodwyd wrth gynnal adolygiad. O fewn un adolygiad, nodwyd arfer gorau lle'r oedd y triniwr cwyn wedi nodi bod diffyg cefnogaeth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan wrthdrawiadau traffig y ffyrdd difrifol ac angheuol lle nad ydynt yn syrthio i gategori dioddefydd, tyst neu deulu, h.y. y drwgdybyn/troseddwr. Cododd y triniwr cwyn y mater hwn ar lefel genedlaethol o'i ben a'i bastwn ei hun.

Darperir yr adroddiad hwn i Fwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol ar gyfer adrodd. Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol fan hyn: Cylch Gorchwyl